# ATODLEN 1

## CODI TALIADAU AM FAGIAU SIOPA: SANCSIYNAU SIFIL

*Cyfuniad o sancsiynau*

7 (1) Ni chaiff rheoliadau bagiau siopa wneud darpariaeth o dan baragraffau 2 a 4 sy'n rhoi pwerau i weinyddwr mewn perthynas â'r un math o doriad o'r rheoliadau oni chydymffurfir â'r gofynion a ganlyn.

(2) Rhaid i'r rheoliadau sicrhau na chaiff y gweinyddwr gyflwyno hysbysiad o fwriad y cyfeirir ato ym mharagraff 3(1)(a) i berson mewn perthynas â thoriad pan fo gofyniad yn ôl disgresiwn wedi ei osod ar y person hwnnw mewn perthynas â'r un toriad.

(3) Rhaid i'r rheoliadau sicrhau na chaiff y gweinyddwr gyflwyno hysbysiad o fwriad y cyfeirir ato ym mharagraff 5(1)(a) i berson mewn perthynas â thoriad pan fo—

(a) cosb ariannol benodedig wedi ei gosod ar y person hwnnw mewn perthynas â'r un toriad, neu

(b) y person wedi rhyddhau ei hun rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r toriad hwnnw yn unol â pharagraff 3(1)(b).